



---

# ADRODDIAD YR ARHOLWR

---

**LEFEL 2**

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:  
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**IONAWR 2022**



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

## Lefel 2

Ionawr 2022

### UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

#### Sylwadau Cyffredinol

Dylid canmol canolfannau am baratoi'r ymgeiswyr dan yr amgylchiadau digynsail. Rhoddod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar yr holl gwestiynau gan ddangos dealltwriaeth o gynnwys yr uned hon.

Cwblhaodd pob ymgeisydd y papur, sy'n awgrymu bod y papur wedi caniatáu digon o amser i ymgeiswyr ysgrifennu ymatebion manwl. Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen cwestiynau a byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ganolbwyntio mwy ar eiriau gorchymyn y cwestiynau. Argymhellir bod ymgeiswyr yn ail-ddarllen ac yn gwirio eu hymatebion, os bydd amser yn caniatáu. Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gadarnhaol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion.

Er y gwneir pob ymdrech i roi digon o le i ymgeiswyr ysgrifennu eu hatebion, roedd yr ymgeiswyr a oedd ag angen mwy o le i ysgrifennu eu hatebion yn nodi'n glir beth oedd rhif y cwestiwn a'r isadran wrth barhau â'u hatebion ar dudalennau estyniad. Roedd yr arholwyr yn gwerthfawrogi hyn.

Yn y cwestiynau sy'n werth mwy, yr ymgeiswyr a ddangosodd broses feddwl glir yn eu dull o strwythuro'u hymatebion oedd yn ennill marciau yn y band uchaf. Roedd tystiolaeth o ddefnyddio cofeiriau i gefnogi galw i gof; er enghraifft, PIES. Yn gyffredinol, gwnaeth ymgeiswyr elwa ar y cymorth cof hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r cwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad. Nid oedd pwyntiau bwled na phwyntiau byr i'w gweld yn aml. Prin iawn oedd yr atebion un gair neu frawddegau byr, gan awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'r cwestiynau. Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y fanyleb yn dda; roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth gyffredinol o'r meysydd cynnwys yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau. Roedd gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth at y sefyllfaoedd penodol yn y senarios yn amrywio. Byddai ymgeiswyr yn elwa o well dealltwriaeth o'r geiriau gorchymyn yn y cwestiynau. Argymhellir ymarfer amrywiaeth eang o gyd-destunau er mwyn datblygu dealltwriaeth yr ymgeiswyr o hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd.

#### Sylwadau ar gwestiynau unigol

**Cw.1** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi'r cam bywyd cywir ar gyfer pob carreg filltir oedd wedi'i dangos fel rheol.

**Cw.2** Ni lwyddodd rhai ymgeiswyr i nodi'r digwyddiadau bywyd (manyleb: maes testun 1.2), ond gwelwyd gwybodaeth dda am sut roedd y digwyddiad bywyd yn dylanwadu ar ddatblygiad. Collodd rhai ymgeiswyr farciau drwy gamddarllen y maes datblygiad penodol roedd y cwestiwn yn gofyn amdano.

**Cw.3 (a)** Roedd yr ymgeiswyr wedi nodi'r cam bywyd plentyndod yn gywir.

- Cw.3 (b)** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr gysylltu chwarae â datblygiad emosiynol. Roedd ymgeiswyr yn cael marciau yn y band uchaf am esbonio datblygiad creadigrwydd, hyder, gwydnwch a rhyddhau dicter a rhwystredigaeth. Ni roddwyd marciau am atebion a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol; er enghraifft, rhannu a gwneud ffrindiau.
- (c)** Roedd yn ymddangos bod y cwestiwn hwn yn heriol, gan gyfyngu ar y marciau a roddwyd. Nid oedd ymgeiswyr yn deall y term "datblygiad moesol". Roedd nifer bach o atebion yn disgrifio'n gywir sut mae chwarae'n cefnogi ymddygiad da ac empathi a rhannu, ac roedd enghreifftiau da o ddatblygiad moesol yn cynnwys cymryd tro, dweud "os gwelwch yn dda" a "diolch", a rhannu teganau.
- Cw.4 (a)** Er bod ymgeiswyr wedi ymateb yn glir i'r diffiniad o anghydraddoldeb rhywedd, roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen y cwestiwn gan ymateb â chydraddoldeb yn hytrach nag anghydraddoldeb.
- (b)** Roedd y cwestiwn yn gofyn am ddwy enghraifft o anghydraddoldeb rhywedd. Rhoddodd ymgeiswyr dystiolaeth o ddealltwriaeth dda, er bod rhai ymgeiswyr wedi colli marciau am ailadrodd enghreifftiau fel: (i) Bydd disgwyl i ddynion wneud y gwaith cynnal a chadw; a (ii) Bydd disgwyl i fenywod goginio a glanhau. Mae'r ddau bwynt yn rhoi enghreifftiau o rolau swydd ystrydebol ac felly dim ond un marc oedd i'w gael am ailadrodd yr enghraifft.
- (c)** Roedd yr atebion yn dangos gwybodaeth dda ac esboniad da o hunan-barch. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am atebion manwl o ansawdd da yn esbonio y gallai'r hyrwyddiad achosi effeithiau cadarnhaol a negyddol.
- (ch)** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â thriniaeth annheg a gwahaniaethu. Roedd yr ymgeiswyr oedd wedi esbonio effaith triniaeth annheg ar iechyd a llesiant yn cael marciau yn y band uchaf. Ni roddwyd marciau am atebion oedd yn canolbwyntio ar Haydn yn meddwl nad oedd ei waith yn ddigon da.
- Cw.5** Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dda iawn. Roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o bwysau gan gyfoedion ac effeithiau camddefnyddio sylweddau.
- Roedd rhan (c) yn gofyn i'r ymgeiswyr drafod y gefnogaeth sydd ar gael i annog Zainab i gymryd cyfrifoldeb. Rhoddwyd marciau am fathau o gefnogaeth, fel: Sesiynau a pholisïau ABCh sydd ar gael gan y coleg, cefnogaeth rhieni, ac anogaeth i helpu Zainab i wneud dewisiadau doeth.
- Cw.6** Roedd yr ymgeiswyr yn rhoi diffiniad clir o'r term gordewdra, a rhoddwyd y marciau uchaf am nodi y byddai'r BMI yn 30 neu'n uwch.
- (c)** Gwelwyd tystiolaeth o ddealltwriaeth sylfaenol o ddiben BMI. Wrth ateb cwestiynau am BMI, mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar y gymhariaeth rhwng taldra a phwysau unigolyn, a gallwn ni ei ddefnyddio fel offeryn i fonitro a gosod targedau.
- (ch)** Atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn yn dda, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn â sut gall unigolyn gyflawni BMI iach. Roedd yr ymatebion poblogaidd yn cynnwys deiet, ymarfer corff, dŵr. Roedd ymgeiswyr oedd yn trafod offer fel tracwyr, dyddiaduron, apiau ffitrwydd, a grwpiau cefnogi fel clwb rhedeg a mynychu clwb colli pwysau fel dulliau i gynnal BMI iach yn cael marciau yn y band marciau uchaf.

**Cw.7** Roedd ymatebion yr ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn yn dda, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu nodi effeithiau profedigaeth ac unigrwydd.

- (b) Roedd yr ymgeiswyr yn nodi'n gywir bod y ganolfan gymunedol yn rhoi cefnogaeth gymdeithasol i Marc. Fodd bynnag, i gyrraedd y band marciau uchaf, roedd disgwyl i'r ymgeiswyr ddisgrifio amrywiaeth ehangach o gefnogaeth, fel pryd bwyd poeth, dysgu sgiliau newydd, a chyfeirio at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.
- (c) Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod nifer cyfyngedig o ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r ymgyrch llesiant *Beth am siarad â fi*. Ymgyrch ar y we yw hon, ac mae'n darparu gwybodaeth, adnoddau a chyfeiriadau at wasanaethau a rhifau cyswllt ar gyfer unigolion sy'n ystyried hunan-niwed a hunanladdiad. Ni roddwyd marciau am ymatebion oedd yn ei disgrifio fel llinell sgwrsio i unigolion unig. (Y Fanyleb: maes testun 1.4.)

**Cw.8** Roedd yr ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a manteision ymgyrchoedd gwrth-ysmygu i unigolion. I gael marciau llawn yn rhan (c), roedd angen i ymgeiswyr drafod manteision ymgyrchoedd gwrth-ysmygu i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal ag i unigolion.

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dan amgylchiadau digynsail ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyfyngiadau amser.
- Dylid annog ymgeiswyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus ac i gymhwyso eu hatebion i'r unigolion a'r amgylchiadau sy'n cael eu disgrifio yn y senario; ni fydd ymatebion generig yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uchaf.
- Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i'r geiriau gorchymyn a ddefnyddir ym mhob cwestiwn. Argymhellir bod canolfannau'n sicrhau bod ymgeiswyr yn deall y geiriau gorchymyn yn glir i roi sail i'w hatebion a chyrraedd y bandiau marciau uchaf.
- Enillodd yr ymgeiswyr lai o farciau os gwnaethant lunio rhestrï yn hytrach na rhoi atebion mwy manwl.
- Argymhellir eu bod yn prawfddarllen eu hatebion i gwestiynau.
- Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall sut mae'r ymgyrchoedd sydd wedi'u nodi yn y fanyleb yn hybu iechyd a llesiant. Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes testun pwysig (y fanyleb, maes testun: 1.4) a dylid rhoi sylw i hyn wrth ddysgu yn y dyfodol. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn sensitif o ran amser. Mae rhestr o fentrau iechyd a llesiant diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

Mae deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru i ymgeiswyr weld sut mae'r cwestiynau'n cael eu geirio a'r hyn y gellir ei arholi. Mae adnoddau ar-lein CBAC, gan gynnwys technegau adolygu ac arweiniadau i arholiadau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol. I gael rhagor o arweiniad; mae deunyddiau DPP ar gael ar wefan ddiogel CBAC.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)